

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A44
(Gelli Angharad, Aberystwyth,
Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40
mya Dros Dro a Dim
Goddiweddyd) 2018

The A44 Trunk Road (Lovesgrove,
Aberystwyth, Ceredigion)
(Temporary 40 mph Speed Limit &
No Overtaking) Order 2018

Gwnaed 1 Mehefin 2018

Made 1 June 2018

Yn dod i rym 7 Mehefin 2018

Coming into force 7 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A44 Llangurig i Aberystwyth, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A44 Llangurig to Aberystwyth Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of the likelihood of a danger to the public on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Gelli Angharad, Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2018 a daw i rym ar 7 Mehefin 2018.

1. The title of this Order is the A44 Trunk Road (Lovesgrove, Aberystwyth, Ceredigion) (Temporary 40 mph Speed Limit & No Overtaking) Order 2018 and it comes into force on 7 June 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

- (a) any vehicle being used by the emergency services; and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y cyfyngiad” (“*restricted period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 8 Mehefin 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A44 Llangurig i Aberystwyth;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiad, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiad, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cymhwyso

6.—(1) Ni fydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“restricted period” (“*cyfnod y cyfyngiad*”) means the period commencing at 06:00 hours on 7 June 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A44 Llangurig to Aberystwyth Trunk Road.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Restriction and Prohibition

3. No person may, during the restricted period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road described in the Schedule.

4. No person may, during the restricted period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road described in the Schedule.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedule are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Application

6.—(1) The restriction and prohibition in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am un mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Mehefin 2018

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is one month.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

1 June 2018

Richard Morgan
Head of Asset Management and Standards
Welsh Government

ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd yng Ngelli Angharad, Aberystwyth, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4159 hyd at bwynt 510 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd yng Ngelli Angharad, Aberystwyth, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4159 hyd at bwynt 846 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

SCHEDULE

The length of the trunk road at Lovesgrove, Aberystwyth, Ceredigion that extends from a point 124 metres west of the centre-point of its junction with the A4159 to a point 510 metres west of the centre-point of that junction.

The length of the trunk road at Lovesgrove, Aberystwyth, Ceredigion that extends from a point 124 metres east of the centre-point of its junction with the A4159 to a point 846 metres east of the centre-point of that junction.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44 (GELLI ANGHARAD, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a hwyluso'r broses o reoli traffig yn ddiogel ar gefnffordd yr A44 neu gerllaw iddi yng Ngelli Angharad, Aberystwyth, Ceredigion yn ystod Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion 2018.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya a gwahardd goddiweddyd ar:

- i. y darn o'r A44 sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4159 hyd at bwynt 510 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno; a
- ii. y darn o'r A44 sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4159 hyd at bwynt 846 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 06:00 o'r gloch ar 7 Mehefin 2018 ac yn weithredol tan 20:00 o'r gloch ar 11 Mehefin 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys, fel mesur wrth gefn, am gyfnod o 1 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A44 TRUNK ROAD (LOVESGROVE, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (TEMPORARY 40 MPH SPEED LIMIT & NO OVERTAKING) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to ensure the safety of road users and to assist with the safe management of traffic on or near the A44 trunk road at Lovesgrove, Aberystwyth, Ceredigion during the Aberystwyth & Ceredigion County Show 2018.

The effect of the Order is to temporarily impose a 40 mph speed limit and prohibit overtaking on:

- i. the length of the A44 that extends from a point 124 metres west of the centre-point of its junction with the A4159 to a point 510 metres west of the centre-point of that junction; and
- ii. the length of the A44 that extends from a point 124 metres east of the centre-point of its junction with the A4159 to a point 846 metres east of the centre-point of that junction.

The restriction and prohibition, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 06:00 hours on 7 June 2018 and operate until 20:00 hours on 11 June 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid, as a contingency, for a maximum period of 1 month.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government